Rheoleiddio Ein Dyfodol

Mae ein rhaglen yn moderneiddio'r ffordd y mae busnesau bwyd yn cael eu rheoleiddio. Rydym ni'n creu system fodern, seiliedig ar risg, cymesur, cadarn a gwydn.

Er mwyn i'r Deyrnas Unedig barhau i fod yn bresenoldeb cryf a chredadwy yn yr economi fwyd fyd-eang, mae'n rhaid i'r gyfundrefn reoleiddio aros yn gyfredol â'r newidiadau cyflym yn yr economi honno.

Bydd ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn newid patrymau cynhyrchu, masnachu a bwyta bwyd, ac felly bydd angen system reoleiddio fwy hyblyg ac ymatebol.

Ein hegwyddorion

- Busnesau sy'n gyfrifol am gynhyrchu bwyd diogel a bwyd sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Mae gan ddefnyddwyr yr hawl i gael gwybodaeth sy'n eu helpu i wneud dewisiadau gwybodus am y bwyd y maent yn ei brynu. Mae gan fusnesau gyfrifoldeb i fod yn dryloyw ac yn onest wrth ddarparu'r wybodaeth honno
- Dylai penderfyniadau'r ASB a phartneriaid rheoleiddio fod wedi'u teilwra, yn gymesur ac yn seiliedig ar ddarlun clir o fusnesau bwyd y Deyrnas Unedig
- Dylai'r rheoleiddiwr gymryd i ystyriaeth bob ffynhonnell wybodaeth sydd ar gael
- Dylid cydnabod busnesau sy'n gwneud y peth iawn i ddefnyddwyr; caiff camau eu cymryd yn erbyn y rheiny nad ydynt
- Dylai busnesau dalu costau rheoleiddio, ac ni ddylai'r costau hyn fod yn fwy na sydd gofyn iddynt fod

Creu polisi yn agored

Mae'r holl gynlluniau rydym ni'n eu datblygu o dan raglen Rheoleiddio Ein Dyfodol yn cael eu profi'n gyhoeddus, a hynny gyda mewnbwn gan ein holl randdeiliaid.

Mae hyn yn cynnwys:

- grwpiau defnyddwyr
- perchnogion cynlluniau sicrwydd preifat
- awdurdodau lleol
- busnesau bwyd o bob maint
- rheoleiddwyr y Deyrnas Unedig a rhyngwladol

Mae modd gweld hyn yn y Model Gweithredu Targed cyfredol, sef ein glasbrint ar gyfer rheolaethau bwyd y dyfodol.

Strategaethau Arolygu Cenedlaethol y Prif Awdurdodau

Beth yw Prif Awdurdod? Sut ydym ni wedi datblygu Strategaethau Arolygu Cenedlaethol a'n Safonau drafft ar gyfer Strategaethau Arolygu Cenedlaethol y Prif Awdurdodau.

Rydym ni wedi bod yn archwilio sut y gallai Prif Awdurdodau (PA) chwarae rhan yn y Model Rheoleiddio Ein Dyfodol. Rydym ni wedi bod yn canolbwyntio ar ystyried y cysyniad o

Strategaethau Arolygu Cenedlaethol (NIS) ar gyfer partneriaethau diogelwch bwyd.

Sut i gymryd rhan

Gallwch chi gymryd rhan yn y drafodaeth a'r sgyrsiau drwy ddefnyddio'r hashnod #RheoleiddioBwyd.

Gallwch chi hefyd anfon e-bost atom ni yn uniongyrchol drwy: futuredelivery@food.gov.uk

Sut i gael y newyddion diweddaraf

Gallwch chi danysgrifio i'n cylchlythyr Rheoleiddio Ein Dyfodol rheolaidd er mwyn cael y newyddion diweddaraf. Rydym ni'n cyhoeddi diweddariad ar raglen Rheoleiddio Ein Dyfodol ynghyd â dogfennau cysylltiedig bob yn ail fis.

Cylchlythyrau Rheoleiddio Ein Dyfodol

Cofrestru i gael Cylchlythyr Rheoleiddio Ein Dyfodol

Hysbysiad Preifatrwydd Cylchylthyr Rheoleiddio Ein Dyfodol

Rheoleiddio Ein Dyfodol – dogfennau pwysig

Fel rhan o'r rhaglen byddwn ni'n cyhoeddi dogfennau allweddol, astudiaethau, ymchwil peilot ac ymchwil data i gefnogi'r rhaglen.

Dogfennau allweddol